**PWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

**5/3/18 (5.15PM – 7.10PM)**

**Presennol:-** Y Cynghorydd Sian Wyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dylan Bullard (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys, Aled Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, Angela Ann Russell, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Gareth Williams a Gruffydd Williams.

**Swyddogion:-** Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol) a Nia Medi Williams (Rheolwr Prosiectau (Cydymdrechu yn erbyn Tlodi a STEM Gogledd)) ar gyfer eitem 1 isod; Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd) a Ken Richardson (Swyddog E-ddysgu) ar gyfer eitem 2 isod.

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes a Peter Read.

<u>Cyhoeddiadau'r Cadeirydd</u>

Nododd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad am waith yr aelodau yn ystod y tywydd garw yn y dyddiau diwethaf.

Nododd mai dyma ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Ardal. Roedd yn sefyll i lawr o'r gadair o ganlyniad i gael ei hethol yn Gadeirydd Grŵp Plaid Cymru Gwynedd. Diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u mewnbwn.

<table>
<tr><td>1</td><td>Credyd Cynhwysol<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol a Rheolwr Prosiectau (Cydymdrechu yn erbyn Tlodi a STEM Gogledd)).<br><br>Nodwyd diolch am y gwaith.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Pwyntiau Gweithredu:<ul><li>Anfon copi o'r cyflwyniad i'r aelodau;</li><li>Anfon rhestr o sesiynau Galw Draw Gwynedd Ddigidol i'r aelodau;</li><li>Aelodau i gysylltu efo'r Rheolwr Prosiectau pe dymunir trafod ymhellach.</li></ul></td><td>BA<br><br>NMW / BA<br><br>Aelodau</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>2</td><td>Porth Aelodau<br><br>Rhoddodd y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) gyflwyniad i waith Is-Grŵp o’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys edrych ar ffurf a chynnwys y Porth Aelodau.<br><br>Tywysodd y Swyddog E-ddysgu yr aelodau drwy’r Porth. | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>• Cysylltu efo Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd gyda unrhyw sylwadau ar y Porth. | Aelodau |